Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin

**Heol Vincent**
**Treláí**
**CF5 5AQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Caerdydd |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbennig |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 203 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 163 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 2 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 44.7%) | 45.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion arbennig a gynhelir yw 100%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 32% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 09/01/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/01/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/11/2022 |

Mae Ysgol Tŷ Gwyn yn darparu addysg ddydd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 mlwydd oed. Mae llawer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol, ac mae ychydig iawn ohonynt mewn addysg ôl-orfodol. Mae anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn amrywiol, ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 36% o ddisgyblion yn awtistig, ac mae gan 35% arall

anawsterau corfforol a meddygol. Mae gan weddill y disgyblion amrywiaeth o anawsterau dysgu, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu cymedrol a chyffredinol. Yn ychwanegol, mae gan ychydig iawn o ddisgyblion namau synhwyraidd.

Mae 29 dosbarth yn yr ysgolion, a 32 o athrawon cyfwerth ag amser llawn, a 105 o gynorthwywyr addysgu.

Mae'r ysgol, ar ran yr awdurdod lleol, yn darparu gwasanaeth allymestyn i ddarparwyr y blynyddoedd cynnar. Ni chafodd hwn ei gynnwys fel rhan o'r arolygiad.

Mae'r ysgol wedi bod yn gweithio gyda phrifysgol leol i ddarparu lleoliadau ar gyfer myfyrwyr TAR.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2012 a phenodwyd pennaeth yr ysgol ym mis Medi 2022.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Tŷ Gwyn yn un o dair ysgol arbennig sy'n ffurfio Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin. Sefydlwyd y ffederasiwn ym mis Ionawr 2018. Nod y ffederasiwn yw cyflawni arbedion maint, datblygu cydweithio agos ar draws yr ysgolion er budd disgyblion a staff, fel ei gilydd, a datblygu a gwella capasiti arwain, tra'n cynnal hunaniaeth unigol pob un o'r tair ysgol.

Caiff pob un o'r tair ysgol eu gwasanaethu gan un corff llywodraethol, a'u harwain gan bennaeth gweithredol, a benodwyd yn 2019.

Mae Ysgol Tŷ Gwyn yn gymuned hapus a gofalgar. Mae staff ar draws y timau addysgu a therapiwtig yn cydweithio'n eithriadol o dda i ddarparu lefelau uchel o gymorth i ddisgyblion a theuluoedd, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i Ysgol Tŷ Gwyn o ganlyniad i'r amgylchedd digynnwrf ac anogol yno. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn meithrin perthnasoedd cryf â staff, sy'n eu helpu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth yn dda dros gyfnod. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn gwersi, yn dysgu gweithio ochr yn ochr â'i gilydd ac yn symud yn hapus rhwng gwahanol weithgareddau o gwmpas yr ysgol. O ran eu hanghenion a'u galluoedd, maent yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu hannibyniaeth ac yn mynegi eu safbwyntiau a'u barn yn effeithiol.

Mae athrawon a staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion dysgu ychwanegol cymhleth disgyblion ac yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn olrhain a monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr ac yn rhoi gwybodaeth fanwl i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plentyn. Mewn llawer o wersi, maent yn cynllunio gwersi pwrpasol a difyr i gynorthwyo disgyblion i gymryd rhan yn llawn yn eu dysgu. Mewn ychydig o wersi, ni chaiff gweithgareddau eu cynllunio'n ddigon difyr, ac nid yw staff yn defnyddio strategaethau cyfathrebu sy'n cael eu ffafrio gan ddisgyblion yn ddigon da i gefnogi cyfranogiad cyson disgyblion mewn dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth gwerthfawr i rieni a gofalwyr, er enghraifft trwy ganolfan deuluol yr ysgol. Mae'n cynllunio'n effeithiol i gynorthwyo rhieni a gofalwyr lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol trwy sicrhau bod eu hanghenion dysgu'n cael eu diwallu. Caiff y cymorth gwerth chweil hwn ar gyfer rhieni a gofalwyr ei werthfawrogi'n fawr ganddynt.

Mae arweinwyr yn hynod weladwy o gwmpas yr ysgol ac yn ymwneud yn agos â phob agwedd ar waith yr ysgol. Maent yn gwybod yn dda iawn beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae gweithgareddau hunanwerthuso yn gadarn ac yn rhoi ystyriaeth addas i adborth gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygu.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau ei bod yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol. Mae trefniadau cryf ar waith i hyrwyddo dysgu proffesiynol staff addysgu sy'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol

A2 Cryfhau'r defnydd o ddulliau cyfathrebu i sicrhau bod y rhain yn bodloni dulliau cyfathrebu sy'n cael eu ffafrio gan ddisgyblion yn gyson

A3 Gwerthuso effaith Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin ar Ysgol Tŷ Gwyn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi dwy astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â chymorth yr ysgol ar gyfer teuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, a'i gwaith o fewn y cwricwlwm i gynorthwyo disgyblion ag anghenion cymhleth i fynychu apwyntiadau ar gyfer eu gofal personol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau a'u mannau cychwyn unigol o ran eu hanghenion a'u galluoedd unigol. Maent yn datblygu ystod werth chweil o fedrau gwerthfawr sy'n eu helpu i wneud cynnydd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn eu bywydau yn y dyfodol. Mae'r cynnydd cryf hwn a wna disgyblion dros gyfnod yn nodwedd hynod effeithiol yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn llwyddiannus, gan eu galluogi i elwa ar y cwricwlwm, ymgysylltu â'i gilydd, gwneud dewisiadau a mynegi eu hunain yn effeithiol. Mewn dosbarthiadau, maent yn gwrando'n dda ar staff addysgu ac yn ymateb yn gadarnhaol, gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu maen nhw'n ei ffafrio. Mae disgyblion iau yn mynegi eu hapusrwydd wrth iddynt gyrraedd yr ysgol trwy leferydd, synau neu arwyddion yn unol â'u gallu. Maent yn ymateb yn dda i'r defnydd o arwyddion a symbolau gan staff addysgu wrth ddefnyddio'r ystafell chwarae meddal; er enghraifft, maent yn defnyddio arwyddion a symbolau eu hunain i ofyn am eu hoff bensiliau lliw yn ystod gweithgareddau lliwio. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio dyfeisiau cyfathrebu fel cyfrifiaduron llechen, teclynnau â switshys a thechnoleg cyfathrebu wedi'i chyfeirio gan y llygaid i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm, gwneud dewisiadau wrth ddewis caneuon, a mynegi eu hanghenion. Mae disgyblion hŷn yn yr adran cymorth awtistiaeth yn ymateb yn dda i'r defnydd gofalus a chynaledig o arwyddion a symbolau i'w hailgyfeirio a'u cael i ganolbwyntio yn ystod sesiynau amser cylch. Mae hyn yn eu helpu i ymdawelu ac ymgysylltu â'u gwers yn fwy effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf yn datblygu eu medrau corfforol. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol yn yr ysgol, gan gynnwys hydrotherapi, therapi adlam a chylchedau yn y gampfa. Maent yn gwella eu medrau balansio a chydsymud, yn neidio o feinciau campfa ac yn taflu cylchynau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu stamina a'u symudedd, gan ddefnyddio eu fframiau cerdded i fynd o gwmpas yr ysgol yn annibynnol neu gymryd rhan mewn her gerdded ysgol gyfan. Mae llawer ohonynt yn gwella eu medrau echddygol manwl mewn ystod eang o wahanol gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn trin offer cegin yn y gegin technoleg bwyd, gan ychwanegu cynhwysion yn ofalus at bowlen gymysgu, plicio nionod a gratio caws.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau creadigol yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft trwy addurno'r bwyd y maent yn ei wneud mewn gwersi coginio, neu wrth ddylunio a chreu eu coronau, eu darnau arian a'u silwetau eu hunain o'r Frenhines i ddathlu'r Jiwbilî. Maent yn mwynhau gwrando ar ganeuon dosbarth, ac ymuno ynddynt, ar ddechrau'r diwrnod, ac yn dathlu eu cyflawniadau gydag arddangosfeydd lliwgar o'u gwaith ar draws yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau darllen ac ysgrifennu yn briodol mewn cysylltiad â'u hanghenion a'u galluoedd. Er enghraifft, maent yn adnabod diwrnod yr wythnos o'r bwrdd yn gywir neu'n dewis llyfrau i'w darllen ar goedd i ddisgyblion eraill yn y dosbarth. Maent yn ymarfer creu marciau, a ffurfio llythrennau gyda chymorth

llaw dros law gan staff. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd effeithiol mewn datblygu eu medrau rhifedd, er enghraifft trwy ddidoli a pharu gwrthrychau a lliwiau, cyfrif dilyniannau syml yn Gymraeg ac yn Saesneg neu ddefnyddio eu medrau adio a thynnu i gyfrif nifer y peli troed yn ystod gwers ar Gwpan y Byd. Mae disgyblion hŷn yn adnabod darnau arian yn gywir ac yn ymarfer eu defnyddio wrth siopa neu yn y siop goffi ar y safle sy'n cael ei rhedeg gan ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau digidol mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u galluoedd. Er enghraifft, maent yn defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau cyfathrebu i gefnogi'r dull cyfathrebu maen nhw eu hunain yn ei ffafrio, yn ogystal â chyfle i wrando ar eu hoff gerddoriaeth a gwylio cartwnau yn ystod amser dewis personol. Mewn gwersi, maent yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol yn briodol i gefnogi ac atgyfnerthu eu dysgu neu i wneud dewisiadau.

Mae disgyblion hŷn yn gwella eu medrau byw yn annibynnol mewn meysydd sy'n cefnogi eu pontio i'w cyrchfannau yn y dyfodol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymarfer medrau yn gysylltiedig â gwaith neu'n gwella eu gallu i gymryd cyfrifoldeb am eu gofal personol eu hunain pan fyddant gartref neu yn y gymuned. Maent yn cyflawni achrediad pwrpasol sy'n cydnabod eu hannibyniaeth gynyddol yn y meysydd pwysig hyn, gan gynnwys trwy Wobr Dug Caeredin.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae pob un o'r ymadawyr wedi symud ymlaen yn llwyddiannus i gyrchfannau wedi'u cynllunio'n ofalus sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u galluoedd yn dda, gan gynnwys colegau addysg bellach a cholegau arbenigol a darpariaeth gwasanaethau dydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae disgyblion yn mwynhau mynychu Ysgol Tŷ Gwyn. Maent yn mynd i mewn i'r ysgol yn hapus yng nghwmni cyfoedion a staff. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn elwa ar y diwylliant diogelu cryf sy'n bodoli, er enghraifft trwy ddangos ymwybyddiaeth o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i bobl sy'n ymweld â'u dosbarthiadau ac yn eu cyfarch yn gynnes.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mewn dosbarthiadau, maent yn dysgu gweithio ochr yn ochr â'i gilydd ac yn trosglwyddo'n hapus rhwng gwahanol weithgareddau o gwmpas yr ysgol. Maent yn dysgu aros yn amyneddgar, yn cymryd eu tro yn briodol, a gyda chymorth gan sbardunau geiriol neu o'u hamserlenni gweledol, yn aros eu tro i gymryd rhan mewn storïau synhwyraidd. Maent yn sgwrsio'n hyderus â'u staff a gyda phobl sy'n ymweld â'r ysgol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn hyderus i ddechrau sgyrsiau ag ymwelwyr, gan ddangos eu gwaith iddynt a gofyn cwestiynau. Mae ychydig ohonynt yn gwrando'n ofalus ar eu hymatebion ac yn ymateb yn llwyddiannus iddynt.

Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd gadarnhaol tuag at weithgareddau sy'n eu hannog i fod yn gorfforol iach a chymryd rhan yn hapus o'u gwirfodd. Maent yn cyfleu eu bod yn mwynhau mynd am dro, defnyddio'r ardaloedd chwarae neu eu sesiynau yn y pwll. Mae ychydig ohonynt yn dangos ymwybyddiaeth o sut i wneud dewisiadau

iach yn ymwneud â diet. Mae ychydig ohonynt yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn y clwb bocsio.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau, er enghraifft wrth ddysgu sut i olchi eu dwylo a'u hwynebau yn y pad sblasio. Maent yn ymateb yn dda i reolau a gwobrau yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Maent yn deall pan fyddant wedi cwblhau tasg i safon sy'n haeddu gwobr, fel seren. Maent yn gwybod faint o sêr sydd eu hangen i ennill gwobr fel amser ar y cyfrifiadur, neu gyfle i chwarae â swigod. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu gwydnwch ac yn dyfalbarhau â thasgau'n dda. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio gwahanol offer cyfathrebu i ofyn i oedolion am gymorth i gwblhau tasgau. Mae ychydig ohonynt yn ymateb yn dda i adborth gan yr athro, gan ddyfalbarhau â thasg er mwyn ei chwblhau'n gywir, er enghraifft adnabod siapiau 2 ddimensiwn neu lenwi gair coll o stori gyfarwydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda. Maent yn symud o gwmpas yr ystafell ddosbarth yn rhydd, gan wneud dewisiadau ynghylch pa weithgaredd i'w gwblhau nesaf neu ble hoffen nhw dreulio amser. Dyrannwyd ffobiau i ychydig iawn o ddisgyblion sy'n eu galluogi i symud o gwmpas adeilad yr ysgol wrth helpu staff â thasgau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ac agweddau yn gynyddol sy'n eu helpu i ymdopi â bywyd y tu allan i'r ysgol. Er enghraifft, yn yr ystafell ddosbarth, maent yn aros am ganiatâd, yn defnyddio toiledau'n briodol ac mewn modd amserol, ac yn gwrando'n ofalus ar gyfarwyddyd oedolyn. Mae ychydig o ddisgyblion hŷn yn helpu cynnal siop coffi a chacennau yn yr ysgol bob wythnos.

Mae disgyblion yn datblygu eu hannibyniaeth a'u gwydnwch ymhellach trwy gynllun Gwobr Dug Caeredin. Maent yn gwirfoddoli yn yr ardal leol, yn datblygu eu medrau corfforol yng nghampfa'r ysgol ac yn ymestyn eu medrau byw yn y clwb brecwast a thrwy fynychu taith ddeuddydd i Barc Margam.

Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu safbwyntiau a'u barn yn effeithiol i ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain a'r gymuned ehangach. Maent yn cyfrannu at agweddau pwysig ar eu cynlluniau cymorth unigoledig. Mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a bod eu llais yn cael ei werthfawrogi trwy gael eu cynnwys yn y cyngor ysgol. Mae aelodau'n pleidleisio ar faterion sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan ac yn cyfleu eu syniadau a'u penderfyniadau i'w cyfoedion yn effeithiol. Er enghraifft, ysgrifennodd aelodau at y cyngor ysgol i gwyno am gyflwr y palmentydd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn yn yr ardal leol. O ganlyniad i hyn, addasodd y cyngor lleol y palmentydd yn briodol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff ar draws yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â disgyblion, sy'n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a digynnwrf ar gyfer dysgu. At ei gilydd, mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus, gan alluogi'r rhai sydd angen lefel uchel o gymorth i reoli eu hymddygiad ac ymgysylltu o'r newydd â'u dysgu mewn modd ystyrlon. Mae arferion dosbarth wedi hen ennill eu plwyf ac mae hyn yn rhoi sefydlogrwydd gwerthfawr, sy'n cynorthwyo disgyblion yn dda wrth iddynt ddechrau a gorffen y diwrnod, ac yn ystod trosglwyddiadau rhwng gwersi yn ogystal.

Mae gan staff addysgu ddealltwriaeth gref o anghenion dysgu ychwanegol cymhleth disgyblion, gan gynnwys eu hanghenion gofal iechyd a therapiwtig. O ganlyniad, mae ganddynt ddisgwyliadau realistig o gynnydd disgyblion yn eu dysgu. Mae tîm ymroddgar o gynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo’r athrawon yn ddiwyd i gynnig darpariaeth ddi-dor yn ystod y dydd. Mae hyn yn helpu disgyblion i gymryd rhan yn llawn yn eu dysgu a chyflawni eu targedau unigol dros gyfnod. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae timau staff yn gwneud defnydd effeithiol o dargedau unigol disgyblion i gynllunio cyfleoedd dysgu pwrpasol. Yn y gwersi hyn, maent yn personoli dysgu’n effeithiol ac yn addasu tasgau ac adnoddau dysgu’n dda i ddiwallu anghenion unigol disgyblion trwy gydol y dydd. Mae staff yn defnyddio’r gofodau dysgu dynodedig yn yr awyr agored a’r ardaloedd synhwyraidd dan do yn fedrus i hyrwyddo ymgysylltiad a lles disgyblion.

At ei gilydd, mae gweithgareddau’n symud ar gyflymdra addas ac maent yn ysgogol a difyr, ar y cyfan. Mewn llawer o wersi, mae staff yn annog cyfranogiad gweithredol disgyblion trwy gydol y wers. Mae adborth llafar yn uniongyrchol, yn gadarnhaol ac yn gefnogol i ymdrechion disgyblion. Mae hyn yn cymell disgyblion i ddyfalbarhau â’u tasgau dysgu a gwneud cynnydd effeithiol dros gyfnod. Mewn ychydig o wersi, nid yw trefn gweithgareddau a’r ffordd y cânt eu cynllunio yn ddigon difyr, sy’n golygu bod cyfleoedd ar gyfer dysgu’n cael eu colli.

Mae’r defnydd o ddull cyfathrebu cyflawn yn effeithiol mewn llawer o wersi ac mae staff yn defnyddio amserlenni dosbarth, byrddau nawr a nesaf, ac arwyddion a symbolau yn hyderus i gyfathrebu â disgyblion a’u hannog i gymryd rhan yn llawn yn eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw staff yn gwneud defnydd cyson o strategaethau cyfathrebu sy’n cael eu ffafrio gan ddisgyblion i gefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad disgyblion yn eu dysgu.

Mae athrawon yn asesu ac olrhain cynnydd disgyblion unigol o’u gwaelodlinau mynediad mewn meysydd dysgu a medrau yn drylwyr gan ddefnyddio system ar-lein fewnol yr ysgol. Maent yn defnyddio’r data hwn a’r wybodaeth hon yn dda i lywio lleoliadau grŵp, cynllunio dosbarth ac wrth osod deilliannau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae trefniadau cadarn ar waith i weithredu’r cwricwlwm ar sail diffiniad yr ysgol o’r ‘pedwar diben’ sy’n bodloni blaenoriaethau’r Cwricwlwm i Gymru yng nghyd-destun Ysgol Tŷ Gwyn. Mae athrawon yn cynllunio’n bwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth astudio Cwpan y Byd FIFA, mae athrawon yn cynllunio’n fedrus i gwmpasu’r medrau sy’n bwysig i’w disgyblion, fel paru, cyfrif, defnyddio switshys i newid rhaglenni a gwneud dewisiadau rhwng tasgau sy’n cael eu ffafrio. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth disgyblion ac yn cefnogi datblygiad eu medrau mewn cyd-destun perthnasol ac amserol. Defnyddir ‘diwrnodau ffocws’ y cwricwlwm yn dda i ymestyn ehangder arlwy’r cwricwlwm a chyfoethogi profiadau bywyd go iawn disgyblion. Er enghraifft, yn ystod y diwrnod ffocws diweddar ar iechyd a lles, hyrwyddwyd diogelwch personol disgyblion yn y gymuned trwy ddefnyddio storïau, celf a chaneuon cymdeithasol.

Mae’r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo’r Gymraeg a Chynefin, ac mae athrawon yn cynllunio ymweliadau lleol difyr â’r gymuned. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld

â'u hardaloedd siopa lleol i ddysgu am eu diwylliant lleol ac ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer y maes dysgu a phrofiad iechyd a lles yn gryf. Mae athrawon yn defnyddio ymagwedd bersonoledig at fynd i'r afael â phynciau sensitif fel tyfu i fyny, ymweld â'r gymuned a pherthnasoedd. Er enghraifft, mae tîm staff wedi gweithio'n agos â gweithwyr iechyd proffesiynol a seicolegwyr i gynllunio prosiect wedi'i seilio ar ddrama sy'n cynorthwyo disgyblion ag anghenion cymhleth i fynychu apwyntiadau fel siop trin gwallt, meddygon a nyrsys.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am gynnydd a chyflawniadau eu plentyn trwy ap cyfryngau cymdeithasol yr ysgol, galwadau ffôn a chyfarfodydd am gynlluniau datblygu unigol. Mae'r adroddiadau ar ddiwedd blwyddyn a'r DVD sy'n cyd-fynd â nhw i ddangos cynnydd eu plentyn dros y flwyddyn yn rhoi gwybodaeth fanwl i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plentyn, yn ogystal â nodi'r camau nesaf yn eu taith ddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Tŷ Gwyn yn gymuned hapus, ofalgar a diogel sy'n cefnogi ei disgyblion a'u teuluoedd yn eithriadol o dda. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu digynnwrf a chroesawgar ar gyfer ei disgyblion, sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad personol disgyblion.

Mae cymorth yr ysgol ar gyfer rhieni a gofalwyr yn eithriadol o werthfawr, gan gynnwys ar gyfer rhieni sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae canolfan deuluol yr ysgol yn cynnig cymorth gwerthfawr ac ystyriol i deuluoedd. Mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau buddiol fel boreau coffi a gweithdai yn ystod y dydd ar gyfer teuluoedd mewn meysydd sy'n cynnwys gwersi iaith, dosbarthiadau gwnïo a thechnoleg gwybodaeth sylfaenol, yn ogystal â chlinigau cysgu a chymorth cyntaf pediatrig. Hefyd, mae'r ysgol yn trefnu i gyfieithwyr fynychu cyfarfodydd adolygiadau blynyddol ac i gynorthwyo cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol. O ganlyniad, mae rhieni a gofalwyr yn cefnogi anghenion dysgu corfforol ac ychwanegol eu plant yn dda. Caiff y cymorth gwerth chweil hwn ei werthfawrogi'n fawr gan rieni.

Mae'r cydweithio agos rhwng staff addysgu a staff iechyd a therapi sy'n gweithio yn yr ysgol yn darparu ymagwedd effeithiol at ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae therapyddion ar y safle a'r tîm technoleg gynorthwyol yn cynorthwyo staff addysgu i ddarparu strategaethau ac adnoddau cyfathrebu gwerthfawr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau cyfathrebu a chorfforol disgyblion.

Mae proffiliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynlluniau datblygu unigol disgyblion yn bwrpasol ac yn cynnwys targedau a dulliau gwerth chweil i hyrwyddo dysgu a lles disgyblion. Caiff y cynlluniau eu rhannu'n dda â staff ac mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol yn eu haddysgu a'u cynllunio. Mae gan yr ysgol drefniadau trylwyr i fonitro cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau unigol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda iawn i werthuso cynnydd disgyblion, cynllunio'r camau nesaf mewn dysgu ac ymyrryd trwy strategaethau priodol a chymorth ychwanegol, lle bydd angen.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i gefnogi cyfnod pontio disgyblion, ac mae staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd o fewn y cwricwlwm, yn ogystal ag ymweliadau â'r ysgol o wahanol golegau addysg bellach.

Mae'r ysgol yn llwyddo i annog disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithgar a chymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn pleidleisio dros eu haelodau o'r cyngor ysgol ac yn gwneud penderfyniadau allweddol am fywyd yn yr ysgol, fel dewis adnoddau ar gyfer dosbarthiadau a'r ardaloedd dysgu yn yr awyr agored.

Mae'r ysgol wedi datblygu arferion gwerth chweil i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion mewn cysylltiad â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae gwasanaethau wythnosol yn yr ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddinasyddion cyflawn. Mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar agweddau pwysig fel Dydd y Cofio ac Wythnos Pride.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod o ymweliadau addysgol diddorol, sy'n aml yn cysylltu'n agos â diddordebau unigol disgyblion ac yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â pharciau lleol a chanolfannau siopa, yn ogystal â lleoedd o ddiddordeb fel Parc Gwledig Margam.

Ceir diwylliant cryf o ddiogelu yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi sefydlu ethos lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn saff. Mae staff ar bob lefel yn effro i arwyddion cam-drin ac esgeulustod. Maent yn dilyn gweithdrefnau priodol i sicrhau bod y plant yn yr ysgol yn derbyn cymorth ac amddiffyniad effeithiol. Mae pob aelod o staff yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd buddiol i'w cadw nhw eu hunain a disgyblion yn ddiogel. Maent yn deall trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu ac yn ymateb i bryderon ynghylch diogelu yn brydlon.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn Ysgol Tŷ Gwyn yn darparu modelau rôl cryf i'r staff a'r disgyblion, ac maent yn hynod weladwy ac yn cyfranogi'n agos ym mhob agwedd ar waith yr ysgol o ddydd i ddydd. Maent wedi cydweithio'n agos â rhanddeiliaid yr ysgol i greu gweledigaeth bwerus ar y cyd, a sicrhau bod eu gwaith yn cael ei arwain gan set o werthoedd ac egwyddorion sy'n ategu pob agwedd ar wella'r ysgol.

O ganlyniad i gylch sefydledig o hunanwerthuso pwrpasol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Caiff y cylch hwn ei ategu gan fonitro ac adolygu gweithgareddau yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwaith hwn yn darparu ffynonellau tystiolaeth cyfoethog ac amrywiol, fel gwerthuso effaith hyfforddiant stori synhwyraidd ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Yn ychwanegol, maent yn gwerthfawrogi ac yn gwerthuso adborth gan ddysgwyr a rhanddeiliaid yn effeithiol, er enghraifft rhieni, wrth ystyried ansawdd y ddarpariaeth a nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd adeiladol o adroddiadau gwerthusol gan sefydliadau allanol fel rhan o'i hymrwymiad i nifer o gynlluniau achredu. Defnyddir y wybodaeth

hon yn strategol i ddilysu barnau a hunanwerthusiad yr ysgol ei hun a chefnogi gosod blaenoriaethau a thargedau'r ysgol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn creu cynlluniau datblygu ystyriol a myfyriol, sy'n nodi rhesymeg glir ar gyfer eu blaenoriaethau, ynghyd â dadansoddiad manwl o'r trefniadau monitro bwriadedig, gweithgareddau, cerrig milltir allweddol, darparu adnoddau a gwerthusiad o effaith. Yn gyffredinol, mae cynlluniau datblygu'r ysgol yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ffederasiwn. Mae staff yn cyfrannu'n gadarnhaol ac maent yn wybodus am flaenoriaethau'r ysgol, ac yn cydnabod eu rôl a'u cyfraniad at gynllunio gwelliant yr ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau rheoli perfformiad cadarn a gefnogir gan bolisïau a dogfennau arweiniad clir, sy'n cael eu cadarnhau a'u hadolygu'n rheolaidd gan y corff llywodraethol. O ganlyniad, mae pob un o staff yr ysgol yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau, gan gynnwys sut maent yn cyfrannu at sicrhau diwylliant diogelu cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau ei bod yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae wedi datblygu a chyhoeddi gweledigaeth a rhesymeg ystyriol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac mae staff wedi cymhwyso llawer o'u dysgu o'u hymglymiad mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol lleol a chenedlaethol fel rhaglenni ysgol arloesi ac ysgol fraenaru. Yn ychwanegol, maent wedi creu diwylliant cryf o adolygu yn canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi gweithredu'r diwygiadau ADY.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd croesawgar a chefnogol i rieni a gofalwyr. Mae arweinwyr yn rhagweithiol wrth wrando ar anghenion rhieni a gofalwyr, ac o ganlyniad, mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd cryf iawn ac yn cynorthwyo teuluoedd i chwarae rôl weithredol yn nysgu eu plentyn. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant, cymorth a chyngor gwerthfawr i rieni i'w cynorthwyo ar ôl y pandemig.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaeth arloesol â darparwr dysgu yn y gwaith lleol sy'n cynorthwyo staff cymorth a benodwyd yn ddiweddar i ddilyn cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefelau 2 a 3 mewn cynorthwyo plant mewn lleoliad ysgol. Mae'r bartneriaeth hon wedi helpu'r ysgol i fynd i'r afael â'r her gynyddol a wynebir gan ysgolion yn genedlaethol i recriwtio staff cymorth sydd â chymwysterau a phrofiad addas.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin wedi datblygu gweledigaeth glir ar y cyfan, a gefnogir gan nodau strategol hynod uchelgeisiol. Fodd bynnag, nid yw'r ffederasiwn bob amser yn disgrifio camau gweithredu a nodwyd yn fanwl gywir. Ar adegau, maent yn llawn jargon ac yn aneglur.

Caiff y ffederasiwn a'r pennaeth gweithredol eu cynorthwyo'n dda iawn gan gadeirydd y llywodraethwyr a chorff llywodraethol sy'n cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y ffederasiwn a'i ysgolion yn fawr. Maent yn angerddol ac yn defnyddio eu medrau yn dda, ar y cyfan, i gefnogi a herio'r tîm arweinyddiaeth weithredol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r llywodraethwyr yn gwbl ymwybodol o nodau a blaenoriaethau'r ffederasiwn. Yn ychwanegol, nid yw ychydig ohonynt yn ddigon ymwybodol o benderfyniadau am wariant.

Mae dyletswyddau'r corff llywodraethol yn ymestyn ar draws y tair ysgol. Caiff aelodau o'r corff llywodraethol eu cynghori'n addas ar waith y tair ysgol gan y pennaeth gweithredol a phenaethiaid ysgol. Mae penaethiaid ysgol, lle bo'n briodol, yn rhoi cyflwyniad i lywodraethwyr ar waith eu hysgol, ac maent yn aelod o'r corff llywodraethol mewn rhinwedd arsylwi. Yn rhannol oherwydd y cynnydd yng nghyfrifoldeb y corff llywodraethol a chyfyngiadau ar ôl y pandemig, mae'r graddau y mae llywodraethwyr yn ymweld â phob ysgol yn anffurfiol a chyfarfod â disgyblion a staff, yn anfynych, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu dealltwriaeth o bob un o'r tair ysgol.

Mae'r pennaeth gweithredol wedi sefydlu cyfres o systemau a strwythurau gwerthfawr i sicrhau bod y corff llywodraethol yn gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae systemau a goruchwylio cyllid, er enghraifft, ar draws y ffederasiwn, yn gryf. Fodd bynnag, rhagwelir diffyg yng nghyllidebau craidd pob un o'r ysgolion. Yn ddiweddar, mae'r ffederasiwn wedi cynyddu ei gapasiti arwain, ac o ganlyniad, mae'r cyfraniad a wna pob ysgol at ariannu'r ffederasiwn wedi cynyddu, sy'n cyfyngu ymhellach ar yr adnoddau sydd ar gael i'r tair ysgol. Mae hyfywedd hirdymor y ffederasiwn yn aneglur.

Estynnir y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer staff gan bartneriaethau cryf â darparwyr allanol. Yn ychwanegol, datblygu hyfforddwyr mewnol a chydweithio ar draws y ffederasiwn mewn meysydd fel ymagweddau cadarnhaol at hyfforddiant cymorth ymddygiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar waith ysgolion. Cryfhawyd y cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr hefyd.

Mae'r ffederasiwn wedi cynnal dadansoddiad trylwyr o'r cyllid a gaiff, ac wedi llwyddo i sicrhau cynnydd yn y cyllidebau craidd ar gyfer pob un o'r ysgolion. O ganlyniad i'r gweithgaredd hwn, mae ysgolion arbennig eraill yn yr awdurdod wedi elwa hefyd.

Mae'r ffederasiwn a'r ysgolion wedi cryfhau cysylltiadau ag ystod o bartneriaid sy'n darparu gwasanaethau hynod werthfawr a hanfodol i ddisgyblion a staff, fel ei gilydd. Er enghraifft, mae gan y ffederasiwn gynlluniau tra datblygedig i gomisiynu gwasanaethau gan yr awdurdod iechyd lleol i ymestyn darpariaeth ar draws y tair ysgol, lle bo'n briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2023